# Rhestr wirio'r cyfnod pontio

## (i staff)

Mae'r newid o Ysgol Gynradd i Uwchradd yn gallu bod yn brofiad anodd i rai plant. Gall sbarduno llawer o deimladau gan gynnwys colled, bygythiad, pryder a chyffro, oherwydd y newidiadau mewn trefn, amgylchedd a pherthnasoedd. Bydd rhai plant rydych chi'n eu hadnabod, efallai yn elwa o gynllun pontio uwch sy'n annog ac yn meithrin perthnasoedd. Rydym wedi gwneud rhestr o bethau i'w hystyried a allai fod o gymorth:

### Manylion y Plentyn:

Enw: Dyddiad Geni:

Ysgol Gynradd: Cyswllt Allweddol:

Ysgol Uwchradd: Cyswllt Allweddol:

| | **Gweithgareddau pontio uwch i'w hystyried** | **Pryd i'w gwblhau?** e.e. erbyn Gorffennaf | **Cwblhawyd?** | **Gwybodaeth ychwanegol** |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol bresennol** | Diweddaru a rhannu eu proffil un dudalen / PUD â'u hysgol newydd | | | |
| | Dechrau cwblhau pasbort pontio gyda'r plentyn | | | |
| | Trefnu cyfarfod gyda'r ddwy ysgol i drafod y plentyn a rhannu gwybodaeth | | | |
| | Nodi diwedd cyfnod e.e. llyfr atgofion / cerdyn post yn ystod gwyliau'r haf neu dymor yr hydref | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| **Y ddwy ysgol** | Gwirio'n gyson gyda rhieni/gofalwyr, ac unrhyw wasanaethau sy'n ymwneud â gofal a chymorth y plentyn | | | |
| | Helpu'r plentyn i wneud rhestr o gwestiynau yr hoffai gael ateb iddynt, a chanfod yr atebion gyda'ch gilydd e.e. pa glybiau y gall ymuno â nhw | | | |
| | Ymweliad ar y cyd gyda'r oedolyn allweddol o'r ysgol gynradd a'r oedolyn allweddol o'r ysgol uwchradd | | | |
| | Cael rhywbeth bach i'w atgoffa o'r ysgol i fynd gydag ef/hi (e.e. gwrthrychau pontio) | | | |
| | | | | |
| **Ysgol newydd** | Nodi gweithiwr allweddol yn yr ysgol newydd | | | |
| | Hwyluso cyfarfod plentyn a gweithiwr allweddol 3 neu 4 gwaith cyn i'r ysgol ddechrau (yn ogystal â'u hymweliadau grŵp blwyddyn) | | | |
| | Rhannu gwybodaeth am yr ysgol e.e. map o'r adeilad / ffotograffau o bobl neu ystafelloedd | | | |
| | Cyfarfod aelodau allweddol o staff e.e. Pennaeth Blwyddyn | | | |
| | Cynllunio ar gyfer y diwrnod cyntaf : Meddyliwch sut bydd plant yn cael eu cyfarch, i le byddan nhw'n mynd, sut maen nhw'n mynd o gwmpas yr ysgol ac ati, a rhannu hynny gyda'r teulu lle bo'n bosib | | | |
| | | | | |

Am ragor o wybodaeth am y strategaethau, gweler adnoddau'r Prosiect Gwydnwch:
I Blant , Rhieni a Staff

Emotional Wellbeing & Mental Health
Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl

CYPF Children, Young People & Family Health Services

PPIT Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd Teuluol

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board